ATODLEN 2

Labeli swyddogol a dogfennau swyddogol

# RHAN 1

## Labeli swyddogol

**1.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd cyn-sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn gyda llinell groeslinol fioled.

**2.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn.

**3.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd ardystiedig fod wedi ei liwio'n las.

**4.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu fod wedi ei liwio'n oren.

**5.** Rhaid i label swyddogol fesur dim llai na 110 o filimetrau x 67 o filimetrau.

**6.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd cyn-sylfaenol, mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(a) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(b) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(c) mis a blwyddyn ei selio;

(d) y rhywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig, o dan ei enw botanegol, y caniateir ei roi mewn ffurf dalfyredig a heb enwau'r awduron, neu o dan ei enw cyffredin, neu'r ddau;

(e) yr amrywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig;

(f) y radd; ac

(g) y disgrifiad "pre-basic seed potatoes".

**7.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig—

(a) cynnwys y datganiad "EU Rules and Standards"; a

(b) mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(i) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(ii) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(iii) mis a blwyddyn ei selio;

(iv) yr amrywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig;

(v) y wlad lle'u cynhyrchwyd;

(vi) y categori;

(vii) y radd;

(viii) y maint; ac

(ix) y pwysau net.

**8.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu—

(a) cynnwys y datganiadau "variety not yet officially listed" ac "for tests and trials only"; a

(b) mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(i) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(ii) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(iii) mis a blwyddyn ei selio;

(iv) y rhywogaeth;

(v) dynodiad yr amrywogaeth y mae'r tatws hadyd i gael eu marchnata oddi tano (y caniateir iddo fod yn gyfeirnod y bridiwr, y dynodiad arfaethedig neu'r dynodiad a gymeradwywyd);

(vi) y rhif cyfeirnod mewn cysylltiad â'r cais a gyflwynwyd yn unol â rheoliad 4(1)(a) o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol ar gyfer derbyn yr amrywogaeth o dan sylw ar Restr Genedlaethol;

(vii) y maint; ac

(viii) y pwysau net.

**9.** Yn achos tatws hadyd o amrywogaeth cadwraeth, yn ogystal â gofynion paragraffau 1 i 8, rhaid i label swyddogol gynnwys yr wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan Erthygl 18 o Gyfarwyddeb 2008/62/EC.

**10.** Heb iddo leihau effaith paragraffau 1 i 8, caiff label swyddogol gynnwys unrhyw ddatganiadau pellach—

(a) sy'n ymwneud â'r cenhedliad maes y mae'r tatws hadyd yn perthyn iddo;

(b) sy'n ofynnol neu y caniateir eu cynnwys mewn label swyddogol yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006; neu

(c) sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

**11.** Os nad yw'r label swyddogol yn dangos y cenhedliad maes, bernir bod tatws hadyd yn perthyn—

(a) yn achos tatws hadyd cyn-sylfaenol, i'r pedwerydd cenhedliad;

(b) yn achos tatws hadyd sylfaenol—

(i) gradd S yr Undeb, i'r pumed cenhedliad;

(ii) gradd SE yr Undeb, i'r chweched cenhedliad;

(iii) gradd E yr Undeb, i'r seithfed cenhedliad;

(c) yn achos tatws hadyd ardystiedig, gradd A yr Undeb neu radd B yr Undeb, i'r nawfed cenhedliad.